
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Powys

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 676A2011



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyfllwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru gefnogaeth gan Colin Davies, Justine Morgan a chydweithwyr, o dan oruchwyliaeth Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 9

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei gynlluniau a'i raglenni, ond mae capasiti a gallu annigonol y staff yn risg sylweddol i gyflawni'i amcanion gwella'n llwyddiannus 10

Mae'r Cyngor yn cyflawni'n anghyson mewn meysydd blaenoriaeth ac nid yw wedi dangos gwelliant parhaus eto 18

Mae'r Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau i oedolion sy'n annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson, ac mae'r trefniadau sydd ar waith yn annhebygol o sicrhau'r raddfa wella na'r cyflymder gwella sydd eu hangen 18

Er bod perfformiad cyffredinol addysg yn anghyson, mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn ddigonol 21

Er bod cyfraddau casglu ac ailgylchu gwastraff y Cyngor wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, mae rhai arwyddion calonogol y gall y Cyngor gyflawni cyfradd ailgylchu uwch a lleihau costau 22

Nid oes diwylliant yn y Cyngor sy'n hyrwyddo asesiad agored a chytbwys priodol o'i berfformiad, ac nid yw eto wedi gwerthuso'n effeithiol pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion gwella 24

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 29

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys 30

**Atodiad 3**
Cyfrifon Cyngor Sir Powys a'i ddefnydd o adnoddau 32

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Powys 35

**Atodiad 5**
Crynodeb yr AGGCC o'i Hadolygiad a'i Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad Cyngor Sir Powys 2010-111 38

# Crynodeb

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant o gymharu â'r llynedd. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae Cyngor Sir Powys (y Cyngor) yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 Mae'r Cyngor wedi pennu gweledigaeth iddo'i hun i gyflawni 'Gwasanaethau Effeithlon ar gyfer Calon Werdd Cymru'. Yn ychwanegol at ei ddyletswyddau statudol, mae ganddo bum amcan gwella, sef:

- Gofal a Lles – gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau di-dor, o ansawdd da drwy gyfrwng gwell modelau gofal a fydd yn adeiladu ar annibyniaeth a dycnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac a fydd yn fwy effeithlon a chynaliadwy.
- Dysgu a'r Gymuned – lleihau costau drwy reoli asedau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol amryfal. Ad-drefnu'r darpariaethau ysgolion er mwyn cydweddu'r lleoedd â'r myfyrwyr a sicrhau bod ysgolion yn ariannol hyfyw ac yn addas i'r diben.
- Adfywio – gwella lles economaidd dinasyddion Powys drwy ddefnyddio adnoddau a dylanwad y Cyngor i ysgogi gweithgarwch adfywio.
- Newid Hinsawdd – helpu diogelu a gwella'r amgylchedd drwy gynyddu cyfraddau ailgylchu; lleihau'r nwyon sy'n peri niwed i'r amgylchedd a sicrhau bod y cyhoedd ym Mhowys yn ddiogel rhag effeithiau mwyaf eithafol y newid yn yr hinsawdd e.e. mwy o risg o lifogydd.
- Cyngor – sicrhau bod pobl ym Mhowys yn elwa o gyngor sy'n gytbwys yn ariannol ac yn addas i'r diben.

3 Canfuom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'i gynlluniau a'i raglenni, ond mae capasiti a gallu annigonol ei staff yn risg sylweddol i gyflawni ei amcanion gwella'n llwyddiannus. Er bod y Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, mae materion sylweddol i fynd i'r afael â nhw o hyd os yw i ysgogi cyflymder cyflwyno'i gynlluniau gwella a chyflawni'u deilliannau bwriadedig.

4 Canfuom hefyd fod y Cyngor yn cyflawni'n anghyson mewn meysydd blaenoriaeth, ac nad yw wedi dangos gwelliant parhaus eto. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- Mae'r Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau i oedolion sy'n annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson, ac mae'r trefniadau sydd ar waith yn annhebygol o sicrhau'r raddfa wella na'r cyflymder gwella sydd eu hangen. Er bod gwasanaethau i oedolion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr yn aml gan ddefnyddwyr gwasanaeth, mae gwendidau yn null y Cyngor o gomisiynu, asesu a rheoli gofal, ac nid yw atebolrwydd yn glir ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'n weithredol.

- Er bod perfformiad cyffredinol addysg yn anghyson, mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn ddigonol. Mae safonau'n dda yn gyffredinol, ac mae aelodau etholedig y Cyngor wedi gwneud penderfyniadau anodd i fynd i'r afael â lleoedd dros ben mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion mewn categori sy'n peri pryder i Estyn, ac nid yw nifer o ysgolion yn rheoli'u cyllidebau'n effeithiol.
- Mae cyfraddau casglu ac ailgylchu gwastraff y Cyngor wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, ar ôl cyflwyno casgliadau ailgylchu a chasgliadau sbwriel newydd a gwell yn Ystradgynlais a Rhaeadr Gwy, mae rhai arwyddion calonogol y gall y Cyngor gyflawni cyfradd ailgylchu uwch a lleihau costau.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad nad oes diwylliant yn y Cyngor sy'n hyrwyddo asesiad agored a chytbwys priodol o'i berfformiad, ac nid yw eto wedi gwerthuso'n effeithiol pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion gwella. Mae asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn tueddu canolbwyntio ar gyflawniadau cadarnhaol yn unig, ac mae'n dibynnu gormod ar ddata sy'n adrodd beth mae'r Cyngor yn ei wneud, ar draul data sy'n dangos y gwahaniaeth mae'r Cyngor yn ei wneud o ran deilliannau. Nid yw Cabinet a threfniadau craffu'r Cyngor yn ddigon effeithiol eto i gynnig her gadarn i berfformiad gwasanaethau.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

6 Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi tri argymhelliad ar gyfer gwella’r Cyngor o dan adran 19 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), a nodir y rhain isod. Rhaid i’r Cyngor ymateb yn ffurfiol i argymhellion statudol o fewn 30 diwrnod gwaith.

**Argymhellion**

**A1** Dylai’r Cyngor sefydlu mwy o drylwyredd a chysondeb yn ei drefniadau i broffilio gofynion Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod ganddo gapasiti a gallu digonol i gyflawni ei amcanion gwella.*

**A2** **Cynllun gwella gweithredol Gwasanaethau Oedolion**

Dylai’r gwasanaeth, gyda chymorth y Swyddfa Rhaglenni, ddylunio a gweithredu cynllun gwella gweithredol Gwasanaethau Oedolion sydd:

- yn asesu perfformiad presennol yn feirniadol a’i werthuso’n gadarn;
- yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella’r dull o gyflwyno gwasanaethau gweithredol, gan gysylltu’r rhain â blaenoriaethau gwella strategol;
- yn nodi ac yn gwerthuso’r risgiau i gyflawni gwelliant ac yn amlinellu sut yr eir ati i’w lliniaru;
- yn nodi’r camau sydd i’w cymryd, yn dyrannu cyfrifoldeb am y camau hynny, ac yn nodi manylion y terfynau amser a’r cerrig milltir allweddol sydd i’w bodloni wrth eu cwblhau;
- yn nodi’r adnoddau ariannol a’r adnoddau o ran pobl (sgiliau a chapasiti), sy’n ofynnol i gyflawni’r camau gwella, ac yn nodi sut y caiff yr adnoddau hynny eu darparu;
- yn nodi’r mesurau sydd i’w defnyddio i fonitro a gwerthuso gwelliant yn y gwasanaethau yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd; ac
- yn nodi targedau gwella clir a diamwys ar gyfer y mesurau hynny.

**A3** **Trefniadau ar gyfer monitro gwelliant mewn Gwasanaethau Oedolion**

Dylai’r Cyngor gynllunio a gweithredu trefniadau cymeradwyo a monitro ar lefel gwasanaeth, lefel gorfforaethol a lefel wleidyddol er mwyn sicrhau’r canlynol:

- bod cynllun gwella gweithredol Gwasanaethau Oedolion yn bodloni pob un o’r gofynion a amlinellir yn A2, a bod graddfa a chyflymder y gwelliant a gynllunnir yn briodol o ymestynnol a bod modd eu cyflawni gyda’r adnoddau a fydd ar gael; a
- bod y rheiny sy’n gyfrifol am gamau gwella yn atebol yn gyson am eu perfformiad, fel bod unrhyw wyro o’r camau gwella cynlluniedig (mewn perthynas â chamau/mesurau/targedau/cerrig milltir) yn cael eu nodi a’u hunioni’n gyflym.

*Gwnaed yr argymhelliad hwn i’r Cyngor gyntaf ym mis Awst 2011.

7 Yn ychwanegol at yr argymhellion penodol uchod, gwneir y cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Cyngor er mwyn cynorthwyo'r gwaith o sicrhau gwelliant.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Adolygu terminoleg amcanion a gweithgareddau gwella, a mesurau llwyddiant a ddewiswyd er mwyn sicrhau eu bod wedi'u mynegi'n glir a'u bod yn gallu caniatáu i ddinasyddion lleol fonitro'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud i'w bywydau.* |
| C2 | Datblygu dull corfforaethol mwy cydlynus o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella'r graddau y mae gweithgarwch ymgysylltu'n cael ei weithredu a'i werthuso'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol o ran gwella gwasanaethau a deilliannau i ddinasyddion.* |
| C3 | Dylai arweinyddiaeth wleidyddol a rheoli'r Cyngor hyrwyddo a sicrhau diwylliant sy'n mynnu hunanasesiad agored a chytbwys priodol o berfformiad corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau, ac sy'n fwy gwerthusol a realistig o ran cynnydd y Cyngor wrth gyflawni'i amcanion gwella. |
| C4 | Wrth asesu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor, sicrhau bod digon o ddata priodol sy'n dangos nid yn unig beth a faint mae'r Cyngor yn ei wneud, ond sydd hefyd yn dangos y gwahaniaeth mae'r Cyngor yn ei wneud o ran deilliannau i'w ddinasyddion. Adolygu amseru, cynulleidfa a chynnwys adroddiadau am gynnydd a pherfformiad er mwyn hwyluso proses benderfynu fwy gwybodus a herio perfformiad gwasanaethau'n fwy cadarn. |
| C5 | Wrth fynd ati'n raddol i gyflwyno dulliau newydd o gasglu gwastraffau a sbwriel y gellir eu hailgylchu ledled y sir, mae angen i'r Cyngor graffu ar, a herio perfformiad er mwyn sicrhau bod y camau hyn yn cael yr effeithiau dymunol, sef cyflawni'r targedau ailgylchu mwyfwy heriol a lleihau cost gwasanaethau gwastraff. |
| C6 | Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod contractau a roddwyd i drydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor yn cael eu monitro'n drylwyr, gyda threfniadau sicrhau ansawdd ar waith i:<br>• reoli a lliniaru risgiau;<br>• gwerthuso effaith y gwasanaethau; ac<br>• asesu eu gwerth am arian.<br>Dylai'r trefniadau hyn hefyd sicrhau cydymffurfio â'r *Cynllun Iaith Gymraeg*. |

* Gwnaed y cynigion hyn i'r Cyngor gyntaf ym mis Awst 2011.

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

8 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud. Mae'r adroddiad yn amlinellu barn yr Archwilydd Cyffredinol am berfformiad y Cyngor wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r farn hon wedi'i llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

9 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) a'r AGGCC, rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

10 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

11 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei gynlluniau a'i raglenni, ond mae capasiti a gallu annigonol y staff yn risg sylweddol i gyflawni'i amcanion gwella'n llwyddiannus

12 Mae'r adran hon yn rhoi sylwadau ar gynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni gwelliant, ac mae'n ymdrin â:

- threfniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus;
- canfyddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau ar gyfer gwella;
- trefniadau rheoli pobl;
- y defnydd o adnoddau a'r trefniadau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir gan bob cyngor;
- sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol; a
- threfniadau'r Cyngor i gefnogi'r iaith Gymraeg.

13 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun, ac mae'n adeiladu ar adborth ac adroddiadau archwilio cynharach a roddwyd i'r Cyngor. Seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad hwn ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith a wnaed eleni.

14 Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo gweledigaeth newydd y cyngor 'Gwasanaethau Effeithlon ar gyfer Calon Werdd Cymru' ym mis Chwefror 2010, i'w chyflawni trwy fodel newid strategol. Cafodd Cynllun *Gwella Corfforaethol 2010-2014* y Cyngor, a elwir hefyd yn *Gynllun Newid Powys,* ei ddatblygu o amgylch pedair blaenoriaeth ar gyfer gwella (yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau) a chwech o flaenoriaethau effeithlonrwydd (yn ymwneud â chyflawni arbedion ariannol a datblygu capasiti'r sefydliad).

15 Yn 2011, aeth y Cyngor ati i fireinio'i gynlluniau drwy adolygu a blaenoriaethu'r prosiectau gan gefnogi pob un o'i amcanion gwella. Yn unol â hynny, ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd y Cyngor bum amcan gwella yn ei *Gynllun Newid Powys 2011-2014,* sef:

- Gofal a Lles – gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau di-dor, o ansawdd uchel drwy gyfrwng gwell modelau gofal a fydd yn adeiladu ar annibyniaeth a dycnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac a fydd yn fwy effeithlon a chynaliadwy.
- Dysgu a'r Gymuned – lleihau costau drwy reoli asedau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol amryfal. Ad-drefnu'r darpariaethau ysgolion er mwyn cydweddu'r lleoedd â'r myfyrwyr a sicrhau bod ysgolion yn ariannol hyfyw ac yn addas i'r diben.
- Adfywio – gwella lles economaidd dinasyddion Powys drwy ddefnyddio adnoddau a dylanwad y Cyngor i ysgogi gweithgarwch adfywio.
- Newid Hinsawdd – helpu diogelu a gwella'r amgylchedd drwy gynyddu cyfraddau ailgylchu; lleihau'r nwyon sy'n peri niwed i'r amgylchedd a sicrhau bod y cyhoedd ym Mhowys yn ddiogel rhag effeithiau mwyaf eithafol y newid yn yr hinsawdd e.e. mwy o risg o lifogydd.
- Cyngor – gweithio fel un cyngor, gan herio'n gyson yr hyn a gyflenwir a'r modd y caiff ei gyflenwi er mwyn gwella ansawdd a lleihau'r gost.

## Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau a'i drefniadau er mwyn cyflawni gwelliant

16 Mae amcanion gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella (a elwir yn *Gynllun Newid Powys 2011-2014*) yn bodloni gofynion y Mesur a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

17 Mae'r Cyngor wedi esbonio yn y cynllun hwn beth yw'r sail ar gyfer dewis pum amcan gwella ar gyfer 2011-2014, ynghyd â sut mae'r cynllun gwella'n cydweddu â strategaethau a chynlluniau eraill, gan gynnwys *Strategaeth Gymunedol Powys.* Wrth benderfynu beth i ganolbwyntio arno, aeth y Cyngor ati i adeiladu ar ei ddealltwriaeth dda bresennol o anghenion lleol a ddatblygwyd drwy asesiad a gynhaliwyd ar y cyd gan y Cyngor a'i bartneriaid allweddol trwy Fwrdd Gwasanaethau Lleol Powys. Roedd yr ymgynghori'n cynnwys arolwg o fodlonrwydd trigolion ac ymgysylltu â dinasyddion Powys ynghylch cyllideb a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2011-12. Mae'r cynllun gwella'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a beth fydd yn ei wneud nesaf. Mae'n cynnwys cynlluniau gweithredu (a elwir yn is-raglenni) ar gyfer pob blaenoriaeth wella sy'n disgrifio'r camau sydd i'w cymryd, ac yn esbonio sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan fesurau llwyddiant a nodwyd. Mae targedau a cherrig milltir wedi'u cynnwys. Mae'r cynllun gwella hefyd yn cynnwys disgrifiad priodol o'r trefniadau sydd gan y Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau gwelliant ar draws ystod ei swyddogaethau.

18 O safbwynt dinasyddion, byddai mwy o eglurder yn y derminoleg a ddefnyddir gan y Cyngor yn rhai o'i amcanion gwella i ddisgrifio'r deilliannau mae'r Cyngor am eu cyflawni yn helpu sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu a'u deall yn glir. Er enghraifft, mae'r amcan gwella Gofal a Lles yn mynnu archwilio is-raglenni technegol braidd er mwyn cael dealltwriaeth o'r hyn mae'r Cyngor yn ei olygu gan 'gwell fodelau gofal'. Hefyd, mae'r *Is-raglen Adfywio* yn arbennig o gul o ran ei ffocws. Mae'r gweithgareddau'n ymwneud yn bennaf â pharatoi cynlluniau a strategaethau, ac nid yw'n dweud yn glir beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn wahanol i fodloni ei nod ddatganedig i wella 'lles economaidd a chymdeithasol dinasyddion Powys', na'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud iddynt.

19 Mae'r cynllun gwella wedi'i gyhoeddi o fewn yr amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae ar gael ar ffurf electronig ar wefan y Cyngor ac mae wedi cael cyhoeddusrwydd drwy'r cyfryngau lleol a chylchlythyr y Cyngor i drigolion, *Barcud Coch.*

## Mae capasiti a gallu annigonol y staff yn risg sylweddol i gyflawni'r amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun yn llwyddiannus

20 Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor. Cynigiodd y llythyr sylwadau ar ddatblygiadau ers yr adroddiadau blaenorol, a chadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn fodlon bod y Cyngor yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan y

Mesur, a'i fod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion sylfaenol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad fod 'capasiti a gallu annigonol y staff yn risg sylweddol i lwyddo i gyflawni'r amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun.' Seiliwyd yr asesiad hwn ar ein canfyddiadau fod y Cyngor:

- yn gwneud cynnydd sylweddol ar ddatblygu ei gynlluniau a'i raglenni manwl, ond bod angen mynd i'r afael â heriau sylweddol o hyd os yw i lwyddo i yrru cyflymder ei gynlluniau a'i raglenni, a llwyddo i gyflawni'i ddeilliannau bwriadedig;
- yn dechrau datblygu ei drefniadau rheoli pobl ond bod cynnydd wedi bod yn arafach na'r bwriad, ac roedd capasiti a gallu annigonol y staff yn risg sylweddol i gyflawni'i amcanion gwella'n llwyddiannus;
- mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol trwy ei gynllun ariannol tymor canolig a'i broses pennu cyllideb, ac yn gwneud cynnydd rhesymol yn cysoni cynlluniau ariannol a chynlluniau gwasanaethau i gefnogi cyflawni'i amcanion gwella; ac
- yn datblygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac wedi cydnabod bod angen iddo wella trefniadau presennol er mwyn galluogi dinasyddion i helpu llunio gwasanaethau mewn cymunedau lleol yn y dyfodol.

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu ei gynlluniau a'i raglenni manwl, ond mae angen mynd i'r afael â heriau sylweddol o hyd os yw i lwyddo i yrru cyflymder ei gynlluniau a'i raglenni, a llwyddo i gyflawni'i ddeilliannau bwriadedig**

21 Dywedodd ein *Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol,* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, 'mae ymrwymiad y Cyngor i symud o ddull cyflawni adrannol traddodiadol, sydd wedi'i chael hi'n anodd cyflawni'i flaenoriaethau, i ddull mwy uchelgeisiol, trawstoriadol a chydsyniol, yn cynnwys potensial i gyflawni gwelliant ar yr amod bod trefniadau cefnogi effeithiol yn cael eu datblygu'n gyflym'.

22 Dywedodd ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Ionawr 2011 fod y Cyngor 'heb ddatblygu ei gynlluniau a'i raglenni manwl eto i'r cam lle gallant ddangos fod y Cyngor yn glir ynglŷn â beth sydd angen iddo wneud i gyflawni ei amcanion gwella, a ph'un a all fforddio gwneud hynny'.

23 Rhoddodd arweinyddiaeth y Cyngor flaenoriaeth i adolygiad sylfaenol o *Gynllun Newid Powys 2010-2014* a neilltuodd gryn adnoddau'r Cyngor i'r gwaith hwn, gan ategu hynny ag arbenigedd rheoli a hwyluso prosiectau a drefnodd yn allanol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod gan y Cyngor 205 o brosiectau wedi'u nodi, ac roedd yn ceisio cyflawni 70 y cant o'r rheiny ar yr un pryd. Ni ellid rheoli na darparu adnoddau'n effeithiol i'r rhaglen ar y raddfa hon. Dewisodd y Cyngor gyfanswm o 36 o brosiectau i'w cyflawni o dan Gyfnod 1 o *Gynllun Newid Powys 2011-2014.* Mae 35 prosiect arall wedi'u nodi a'u rhychwantu, ac maent yn cael eu

cymeradwyo yn amodol ar fod ganddynt gynlluniau ariannol a chynlluniau adnoddau cadarn ar waith. Mae gan y Cyngor *Gynllun Gwella Powys 2011-2014* mwy cadarn sydd wedi'i ddatblygu'n well erbyn hyn, ac mae'n nodi'i flaenoriaethau'n gliriach, ynghyd â'r modd y mae'n bwriadu eu cyflawni.

24 Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys gwendidau o ran rheoli prosiectau a rhaglenni (a chynllunio adnoddau'n benodol) a diffyg perchenogaeth gorfforaethol ar reoli perfformiad ar draws y Cyngor. Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae'r Cyngor yn newid ei strwythur rheoli a'i drefniadau llywodraethu er mwyn darparu mwy o atebolrwydd a thargedu adnoddau'n fwy effeithlon. Mae newidiadau allweddol yn cynnwys:

- creu tîm Swyddfa Rhaglenni dan arweiniad y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn gyfrifol am gynhyrchu a rheoli'r cynllun newid;
- rhesymoli rheoli perfformiad ar draws y Cyngor gyda Phennaeth yr Uned Perfformiad Busnes yn cymryd y prif gyfrifoldeb dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid a Seilwaith;
- y tîm Cyfathrebu wedi'i drosglwyddo i'r Gwasanaethau Adnoddau Dynol er mwyn cyfateb yn fanylach â datblygu sefydliadol a gwaith ar y cynllun newid;
- y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i adrodd i'r Prif Weithredwr ac ymuno â'r Tîm Rheoli Corfforaethol; ac
- ail-ddylunio ei drefniadau llywodraethu er mwyn rhoi cefnogaeth well i'r gwaith o gomisiynu a chyflawni ei gynllun newid.

25 Mae'r newidiadau hyn yn rhai diweddar, ac mae'n rhy gynnar i werthuso i ba raddau maent yn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau mae wedi'u nodi. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y meysydd hyn.

26 Mae'r Cyngor wedi nodi fod angen iddo weithio ar y cyd â phartneriaid allweddol er mwyn cyflawni llawer o'i amcanion gwella. Fodd bynnag, nid yw eto wedi sefydlu trefniadau cadarn ac effeithiol i alluogi partneriaid, fel y rheiny yn y sector gwirfoddol, i ymgysylltu'n llawn â'i weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol o dan *Gynllun Newid Powys.* Er enghraifft, mewn Gwasanaethau Oedolion, mae gan y Cyngor strategaeth dair blynedd sy'n nodi'r trydydd sector fel darparwr allweddol gwasanaethau gofal a chymorth. Mae amcan gwella'r Cyngor yn rhagweld y bydd y Cyngor yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol fel hyn. Eto, nid oes fawr o dystiolaeth fod y weledigaeth strategol hon wedi'i thrafod yn ehangach nag yn y Cyngor ei hun, rhwng Gwasanaethau Oedolion a'r adran Gyllid. Mae'r diffyg ymgysylltu hwn â phartneriaid strategol y dyfodol yn golygu nad ydynt mewn lle da i ymateb yn amserol i ofynion y Cyngor sy'n dod i'r amlwg. Fe allai hyn gael effaith negyddol ar allu'r Cyngor i fodloni a chyflawni ei amcanion gwella allweddol ar gyfer Gofal a Lles.

27 Fodd bynnag, mae'n galonogol adrodd fod y cydweithredu â Bwrdd Addysgu Iechyd Powys yn datblygu ymhellach a bod y cytundeb i rannu amcanion strategol cyffredin o dan *Gynllun Newid Powys* yn gadarnhaol iawn. Dylai'r datblygiad hwn helpu darparu defnydd â mwy o ffocws a defnydd mwy cyfochrog o adnoddau a ddylai gael effaith gadarnhaol ar gyfer dinasyddion Powys.

28 Yn ddiweddar hefyd fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo a llofnodi cytundeb gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r fframwaith cydweithredol newydd rhwng llywodraeth leol, llywodraeth ranbarthol a llywodraeth genedlaethol; fframwaith ar gyfer gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy a datblygu Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol mewn perthynas â safonau ysgol. Mae'n gadarnhaol fod y Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd cydweithredu wrth gyflwyno'i wasanaethau, ac mae'n dechrau rhoi ei hun mewn lle da mewn perthynas â'r agenda hwn.

**Mae'r Cyngor yn dechrau datblygu ei drefniadau rheoli pobl ond mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r bwriad, ac mae capasiti a gallu annigonol y staff yn risg sylweddol i gyflawni'i amcanion gwella'n llwyddiannus**

29 Adroddom yn flaenorol nad oedd y Cyngor wedi rhoi cynlluniau ar waith eto i sicrhau bod ganddo'r gallu a'r capasiti staff i gyflawni'i agenda gwella. Mae cynnydd wedi bod yn arafach nag a fwriadwyd mewn llawer o feysydd. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth, system arfarnu newydd a chynlluniau gweithlu penodol i wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r meysydd hyn a meysydd eraill drwy nodi'r angen 'i gyflawni'r capasiti a'r gallu gofynnol' fel amcan penodol o'i *Is-raglen Trawsnewid y Gweithlu* yng *Nghynllun Newid Powys, 2011-2014.*

30 Fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo mabwysiadu strategaeth gweithlu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2011-2015 ar 14 Mehefin 2011. Mae'r strategaeth gychwynnol hon yn nodi pwysau ar weithlu'r dyfodol, gan gynnwys angen i leihau maint y gweithlu yn sgil pwysau ariannol, proffil gweithlu sy'n heneiddio a heriau a gyflwynir gan fwy o weithio ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth ei hun yn cynnig yr atebion i'r pwysau hyn.

31 Hyd yn hyn mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i'r prosiectau canlynol fel rhan o'i *Is-raglen Trawsnewid y Gweithlu:*

- cynllun ymddiswyddo gwirfoddol;
- gwerthuso swyddi;
- datblygu'r aelodau; a
- datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r is-raglen hon wedi'i chynllunio'n ddigonol eto i fynd i'r afael â'r holl heriau sylweddol i'r gweithlu mae'n eu hwynebu. Yn ogystal, mae'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael o ran cyllid a chapasiti adnoddau dynol wedi'u nodi fel risg i gyflawni'r fframwaith datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

32 Nid yw'r risg hon wedi'i chyfyngu i'r *Is-raglen Trawsnewid y Gweithlu* o gwbl. Mae'r Cyngor wedi nodi bod tanamcangyfrif gofynion adnoddau'n briodol a/neu ddiffyg adnoddau/sgiliau mewn is-raglenni eraill yn risg sylweddol i gyflawni'i amcanion gwella'n llwyddiannus, am y rhesymau canlynol:

- bydd prosiectau dan ofal rheolwyr yn cael eu cyflwyno gan staff gweithredol nad yw'r amser/gallu ganddynt o bosibl i gyflwyno prosiectau;
- diffyg cydymffurfio ag arweiniad ffurfiol ar ddarparu adnoddau i brosiectau; ac
- anhawster yn amcangyfrif gofynion adnoddau prosiectau trwy ddiffyg gwybodaeth a/neu brofiad rheoli prosiectau.

33 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo fylchau sgiliau ac adnoddau i fynd i'r afael â nhw os yw i gyflawni ei amcanion gwella, yn wir, mae rhai eisoes wedi'u nodi drwy'r adolygiad o *Gynllun Newid Powys.* Ar gyfer ei brosiectau Cyfnod 1, mae'r Cyngor yn mynd ati i nodi'r sgiliau a'r lefelau adnoddau sy'n ofynnol, ac yn archwilio cyfleoedd i secondio staff o'r Cyngor neu i sicrhau adnoddau allanol fel a gyfiawnheir gan achos busnes y prosiect. Yn y tymor byr i'r tymor canolig, bydd gallu'r Cyngor i fynd ati'n effeithiol i gydweddu'r sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael â'r angen busnes yn mynnu ei fod yn datblygu data cynllunio gweithlu cadarn ar draws pob maes gwasanaeth. Nid yw'r gweithgarwch hwn wedi'i gynllunio eto, ac nid oes adnoddau wedi'u trefnu ar ei gyfer.

**Mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol trwy ei gynllun ariannol tymor canolig a'i broses pennu cyllideb, ac yn gwneud cynnydd yn cysoni cynlluniau ariannol a chynlluniau gwasanaethau i gefnogi cyflawni'i amcanion gwella**

34 Fel rhan o'i broses pennu cyllideb ar gyfer 2011-12, cyflwynodd y Cyngor adroddiad ar ei *Gynllun Ariannol Tymor Canolig* ar gyfer 2011-2015. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r cynllun pedair blynedd hwn sy'n nodi'r arbedion refeniw a/neu'r arbedion effeithlonrwydd o bron i £12 miliwn sy'n ofynnol. Mae'r *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* yn amlinellu sut bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu dros y cyfnod a'i effeithiau ar gyllidebau refeniw, gan sicrhau felly fod yr effeithiau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn yr amcangyfrif o'r arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen. Mae'r *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* yn cofnodi'r rhagdybiaethau a wnaed wrth bennu'r ffigurau cyffredinol, ac mae'n cydnabod bod angen i'r cynllun fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu newidiadau i'r rhagdybiaethau hyn dros y cyfnod.

35 Rydym wedi adrodd o'r blaen nad oes cysylltiad clir rhwng y *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* â naill ai'r cynlluniau gwasanaeth unigol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ariannol na'r cynllun strategol cyffredinol, *Cynllun Newid Powys*. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn i sicrhau bod y blaenoriaethau strategol a amlinellir yng *Nghynllun Newid Powys* yn cael eu cefnogi gan is-raglenni a strategaethau gwasanaeth cadarn, sydd wedi'u costio ac y gellir eu cyflawni, a fydd yn eu tro yn llywio'r *Cynllun Ariannol Tymor Canolig.* Cawn ein calonogi

gan y cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod y *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* yn cael ei ymgorffori yn ei fframwaith rheolaeth a pherfformiad ariannol, a'i fod yn cefnogi cyflawni'i amcanion strategol a'i flaenoriaethau. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.

36 Fe wnaeth yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol roi ei farn yn ddiweddar ar gyfrifon y Cyngor, a daeth i'r casgliad fod y datganiadau ariannol yn foddhaol yn gyffredinol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

**Mae'r Cyngor yn datblygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn cydnabod bod angen iddo wella trefniadau presennol er mwyn galluogi dinasyddion i helpu llunio gwasanaethau mewn cymunedau lleol yn y dyfodol**

37 Mae'r Cyngor o'r farn fod ymgysylltu â'r cyhoedd yn flaenoriaeth bwysig. Yn unol â hynny, mae wedi neilltuo uwch aelodau a swyddogion i gefnogi'i weithgarwch ymgysylltu, ac mae'n helpu staff priodol i ddatblygu ymhellach y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio ac ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i sicrhau bod ei waith o gyflwyno gwasanaethau'n canolbwyntio ar y dinesydd a'i fod yn hyrwyddo'r cyfleoedd i ymgysylltu'n effeithiol gymaint â phosibl drwy weithio mewn partneriaeth. Mae wedi nodi camau allweddol i wneud cynnydd sy'n golygu cynnwys cymunedau yn fwy wrth fynd ati i ddylunio gwasanaethau cyhoeddus a datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu newydd.

38 Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau effeithiol ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â'i ddinasyddion. Mae'r rhain yn cynnwys: ymgysylltu trwy Brosiect Llanfair-ym-Muallt; y Fforwm Ieuenctid; ac ymgynghori ar flaenoriaethau a chyllideb y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dysgu gwersi o'i waith ymgysylltu ac ymgynghori, ac mae wedi nodi lle gallai cynllunio'i weithgareddau'n well fod wedi gwella'r buddion a'r deilliannau a gyflawnwyd ganddynt. Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei chasglu am ymgysylltu ac ymgynghori, ond gellid gwella'r gwaith o ddadansoddi a mesur y wybodaeth honno.

39 Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu dull corfforaethol mwy cydlynus o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy:

- ymgysylltu ac ymgynghori sefydliadol a chymunedol mwy cyfochrog trwy ddull *Un Powys,* a dileu dyblygu diangen rhwng partneriaid;
- mabwysiadu fframwaith corfforaethol i wella a safoni ansawdd technegau ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y Cyngor;
- gwella'i wybodaeth ar y we am ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd; a
- gwella'r dull o werthuso'i ddata ymgysylltu ac ymgynghori, er enghraifft trwy fonitro bodlonrwydd â gwasanaethau'r Cyngor er mwyn helpu nodi meysydd i'w gwella.

40 Dylai rhoi'r camau hyn ar waith yn llwyddiannus helpu'r Cyngor i wella'r graddau y mae gweithgarwch ymgysylltu'n cael ei weithredu'n gyson, ac i arfarnu a yw'n effeithiol o ran gwella gwasanaethau a deilliannau i ddinasyddion. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn.

**Mae’r Cyngor wedi cael canmoliaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am wella’i allu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod gwasanaethau sydd wedi’u contractio allan yn cydymffurfio â’r Cynllun Iaith Gymraeg a’u bod yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ifanc**

41 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol y Cyngor am gyflwyno system recriwtio ar-lein sy’n galluogi’r cyhoedd i gael gwybodaeth ac ymgeisio am swyddi yn Gymraeg. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu *Cynllun Gwella’r Iaith Gymraeg* er mwyn nodi a llenwi unrhyw fylchau presennol yng ngallu’r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

42 Daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i’r casgliad fod angen gwaith pellach gan y Cyngor i sicrhau bod contractau a roddwyd i drydydd partïon sy’n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor yn cydymffurfio â’r *Cynllun Iaith Gymraeg*.

43 Mae dod â Grŵp Cyfeirio’r Iaith Gymraeg i ben yn golygu nad oes fforwm erbyn hyn ar gyfer trafod darpariaeth iaith Gymraeg y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae’n rhaid i’r bartneriaeth ddod o hyd i ddull arall yn awr o sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg ifanc yn cael eu hystyried.

# Mae'r Cyngor yn cyflawni'n anghyson mewn meysydd blaenoriaeth ac nid yw wedi dangos gwelliant parhaus eto

44 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda y credwn fod y Cyngor yn mynd ati i wella'i wasanaethau. Caiff ein casgliadau eu llywio gan y gwaith rydym wedi'i wneud eleni yn adolygu perfformiad a chynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion gwella. Adlewyrchwn farnau'r AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor i oedolion, a barnau Estyn mewn perthynas â gwasanaethau addysg.

## Mae'r Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau i oedolion sy'n annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson, ac mae'r trefniadau sydd ar waith yn annhebygol o sicrhau'r raddfa wella na'r cyflymder gwella sydd eu hangen

45 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda mae'r Cyngor yn mynd ati i wella'r ffordd mae'n cefnogi pobl mewn angen. Eleni, cynhaliom adolygiad ar y cyd ag AGGCC i asesu a yw adran Gwasanaethau i Oedolion y Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau gwerth am arian sy'n bodloni anghenion pobl gymwys ac yn bodloni'i gyfrifoldebau statudol.

46 Mae newidiadau i reolwyr ar lefel uwch yn adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor wedi bod yn digwydd yn rheolaidd, ac mae penodiadau dros dro wedi'u gwneud ers tro bellach ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a swydd Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion.

47 Fe wnaeth y cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ymddeol ym mis Rhagfyr 2009, ac fel rhan o ddatblygu dull integredig o reoli a chyflwyno gwasanaethau gyda Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, cytunodd y Cyngor i gyfuno swydd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd â Chyfarwyddwr Strategol y Cyngor ar gyfer Gofal a Lles am gyfnod prawf o naw mis. Yn anffodus, nododd y broses recriwtio nifer o densiynau sy'n gwrthdaro rhwng gofynion y ddwy rôl, ac o ganlyniad ni wnaed unrhyw benodiad.

48 Ar 23 Chwefror 2011 ac ar 1 Mawrth 2011 yn y drefn honno, penderfynodd Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Cyngor Sir Powys y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd rhwng eu gwasanaethau cymdeithasol. Yn unol â hynny, ymgymerodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion â swydd Cyfarwyddwr Strategol – Gofal a Lles (gan gynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) yng Nghyngor Sir Powys ar 1 Ebrill 2011. Mae'r rôl hon wedi cynnwys arwain yr astudiaeth ddichonoldeb. Mae hyn yn golygu fod Powys a Cheredigion yn rhannu cyfarwyddwr ar hyn o bryd ar sail 50:50, ac mae'r swydd yn cael ei rheoli gan gytundeb secondiad wedi'i lofnodi gan y ddau awdurdod sydd i ddod i ben ar ddiwedd mis Ionawr 2012.

49 Mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau erbyn hyn, a daeth i'r casgliad y gallai Ceredigion a Phowys ennill mantais sylweddol o gynllunio a chyflwyno elfennau o'u swyddogaethau gofal cymdeithasol ar sail ranbarthol o dan un tîm rheoli. Derbyniodd yr aelodau argymhellion adroddiad yr astudiaeth, ac yng nghyfarfod y Cyngor ar 8 Rhagfyr 2011, penderfynwyd comisiynu gwaith dylunio a rhoi peilot ar waith.

50 Ym mis Ebrill 2011, aeth y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn ôl i'w swydd wreiddiol ar ôl secondiad o ddwy flynedd yn gweithio gyda Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

51 Fe wnaethom adrodd yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* i'r Cyngor ym mis Ionawr 2011 fod angen ers tro byd i foderneiddio Gwasanaethau Oedolion y Cyngor a gwella'i ddatblygiad strategol. Nododd ein hadroddiad nad yw cyfrifoldebau ac atebolrwyddau ar gyfer datblygu strategol wedi'u nodi'n glir, ac nad oes cynllun rheoli newid effeithiol ar waith, na chynllun comisiynu a chaffael ar gyfer moderneiddio'r Gwasanaethau Oedolion.

52 Rôl yr AGGCC yw llunio asesiadau a barnau proffesiynol am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ac felly annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaeth. Bob blwyddyn, mae'r AGGCC yn ymgymryd â'i *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad* gwasanaethau cymdeithasol a gyflwynir gan y Cyngor, ac yn adrodd ar hynny. Tynnodd adroddiad 2009-10 yr AGGCC sylw at fod y swyddogaethau asesu a rheoli gofal yn parhau i beri pryder, ac y byddai gwendidau a nodwyd yn gofyn am arweinyddiaeth gadarn a ffocws parhaus os yw pobl Powys i elwa o ystod o wasanaethau cydlynus a modern. O ganlyniad, daw *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad* 2010-2011[1] ( rhoddir crynodeb ohono yn Atodiad 5) yr AGGCC i'r casgliad mai ychydig o newid a welwyd i wella'r profiad i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac ymddengys nad yw'r Cyngor ddim agosach i roi'r strategaethau comisiynu a chaffael ar waith sydd eu hangen i ehangu mynediad i ystod ehangach o wasanaethau o safon, a'u datblygu.

53 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw ei wasanaethau i oedolion wedi symud ymlaen 'ar gyflymder sy'n cyfateb i ddatblygiadau mewn mannau eraill'. Ar 23 Awst 2011, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo buddsoddiad o £290,000 yn 2011-12 i alluogi'r Cyngor i gyflawni targedau a osodwyd yn ei *Raglen Byw fel Oedolion,* sef blaenoriaeth wella yn ei *Gynllun Newid Powys.* Dywedodd yr adroddiad i'r Cabinet: 'mae'n glir oddi wrth ein rheoleiddwyr fod angen i ni wneud newidiadau radical yn awr yn dilyn nifer o adolygiadau ac arolygiadau blaenorol ar y cyd, ac mae angen i ni wneud hyn yn gyflym.'

54 Yn yr un cyfarfod, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo trosglwyddo £500,000 o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir yn yr adran Gofal Cymdeithasol Oedolion i sicrhau adnoddau a chapasiti ychwanegol (er mai dros dro fydd hynny) i fynd i'r afael â materion a nodwyd gan archwiliadau mewnol a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd diwethaf. Fe wnaeth yr archwiliadau hyn nodi nifer o feysydd risg yn ymwneud ag asesu angen a rheoleiddio ariannol. Gwnaeth adroddiad yr archwiliad mewnol, a ysgrifennwyd yng ngaeaf 2010, nifer o argymhellion yn gofyn am 'newid radical er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r materion' a oedd yn ymwneud â chyflwyno Gwasanaethau Oedolion ac ansawdd asesiadau. Mae'r adroddiad yn nodi 'ôl-groniad o waith y mae angen ei wneud ar adolygiadau, gwirio a glanhau systemau, a monitro contractau a chomisiynu, tra'n cyflwyno gwasanaeth diogel'. Er y gwnaeth y Cabinet gymeradwyo trosglwyddo arian yn

1 Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan yr AGGCC yn www.aggcc.org.uk.

briodol, bydd yn cymryd cryn amser i'r Cyngor recriwtio pob un o'r adnoddau ychwanegol y mae wedi nodi bod eu hangen arno.

55 Ym mis Medi 2011, cynhaliom adolygiad ar y cyd â'r AGGCC i asesu a yw adran Gwasanaethau Oedolion y Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau gwerth am arian sy'n bodloni anghenion bobl gymwys a'i gyfrifoldebau statudol ei hun. Er mwyn ateb y cwestiwn cyffredinol, fe wnaethom ystyried dau gwestiwn: 'pa mor dda yw'r gwasanaethau i oedolion?' ac 'a yw'r gwasanaeth mewn lle da i gynnal a gwella perfformiad?'

56 Daeth ein hadolygiad o Wasanaethau Oedolion i'r casgliad fod y Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau i oedolion sy'n annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson, a bod y trefniadau sydd ar waith yn annhebygol o sicrhau'r raddfa wella na'r cyflymder gwella sydd eu hangen. Daethom i'r casgliad hwn am i ni ganfod:

- er bod gwasanaethau i oedolion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn aml, mae gwendidau yn null y Cyngor o gomisiynu, asesu a rheoli gofal yn golygu bod gwasanaethau i oedolion yn annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson; ac
- er bod blaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer Gofal a Lles yn dod yn fwyfwy clir, mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i oedolion yn weithredol yn aneglur, ac mae hyn, ynghyd â gwendidau yn y trefniadau rheoli ariannol a rheoli perfformiad, yn golygu bod y gwasanaeth yn annhebygol o wella perfformiad.

57 Amlinellir y canfyddiadau hyn yn fanylach yn Arddangosion 1 a 2.

Arddangosyn 1: Pa mor dda yw'r gwasanaethau i oedolion?

| **Er bod gwasanaethau i oedolion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn aml, mae gwendidau yn null y Cyngor o gomisiynu, asesu a rheoli gofal yn golygu bod gwasanaethau i oedolion yn annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson** |
| --- |
| Mae gwendidau yn y trefniadau ar gyfer comisiynu a chaffael gwasanaethau i oedolion yn strategol, ac ar gyfer monitro'u cyflwyniad, yn golygu bod dinasyddion yn annhebygol o allu cael mynediad yn gyson i'r amrediad a'r ansawdd gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae ansawdd ymgysylltiad y Cyngor â darparwyr gwasanaeth allweddol yn annhebygol o gefnogi datblygu gwasanaethau. |
| Mae capasiti staff cyfyngedig a threfniadau rheoli gweithredol gwan yn golygu nad yw'r Cyngor eto wedi mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd yn amseroldeb ac ansawdd ei asesu a'i reolaeth o ofal oedolion sy'n gymwys i gael ei wasanaethau, ac sydd angen y gwasanaethau hynny. |

58 Rydym wedi nodi dau argymhelliad ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 y Mesur. Amlinellir y rhain ar dudalen 6 ac mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'n hargymhellion statudol o fewn 30 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad hwn.

Arddangosyn 2: A yw'r gwasanaeth mewn lle da i gynnal a gwella perfformiad?

| **Er bod blaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer Gofal a Lles yn dod yn fwyfwy clir, mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i oedolion yn weithredol yn aneglur, ac mae hyn, ynghyd â gwendidau yn y trefniadau rheoli ariannol a rheoli perfformiad, yn golygu bod y gwasanaeth yn annhebygol o wella perfformiad** |
|---|
| Mae datblygiad parhaus *Cynllun Newid Powys* a'i drefniadau llywodraethu cysylltiedig wedi helpu'r Cyngor i roi gwedd gliriach ar ei flaenoriaethau mewn perthynas â'i *Is-raglen Gofal a Lles.* |
| Mae arweinyddiaeth dameidiog ar wasanaethau dros gyfnod wedi cyfrannu at ddiffyg eglurder a ffocws mewn perthynas â chyfrifoldeb ac atebolrwydd gweithredol. Mae hyn yn effeithio'n niweidiol ar allu'r Cyngor i hyrwyddo'r gwelliannau i wasanaethau y mae angen iddo'u cyflawni. |
| Mae gwendidau a thensiynau yn rhai o'r systemau a'r trefniadau cymorth, yn enwedig mewn perthynas â pherchenogaeth o ddata ariannol a data perfformiad, ac atebolrwydd am wella, sy'n rhwystro'u defnydd effeithiol wrth hyrwyddo gwelliant a dangos gwerth am arian. |
| Mae angen ar fyrder, yn y tymor byr o leiaf, am graffu a monitro corfforaethol a gwleidyddol er mwyn sicrhau gwelliant wrth gyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn weithredol. |

## Er bod perfformiad cyffredinol addysg yn anghyson, mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn ddigonol

59 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n helpu pobl i ddatblygu. Y casgliad uchod a'r paragraffau canlynol sy'n sail i'r casgliad hwnnw, yw barnau Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

60 Pan gaiff ystod o wybodaeth gyd-destunol ei hystyried, mae perfformiad disgyblion ym Mhowys islaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ac ychydig uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad islaw'r cyfartaledd yn gyffredinol gyda gormod o ysgolion yn y 25 y cant isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Dim ond y trothwy lefel 1 sydd uwchlaw'r cyfartaledd.

61 Mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi bodloni neu ragori ar bob un ac eithrio un o'r meincnodau disgwyliedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y pedair blynedd hyd at 2010.

62 Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi dirywio yn 2011, ac erbyn hyn mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros yn ddigyfnewid. Mae nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn dda o gymharu â gweddill Cymru, ond mae nifer y diwrnodau y mae disgyblion yn eu colli o'r ysgol oherwydd gwaharddiadau yn parhau'n uchel.

63 Cafodd y Cyngor ei arolygu gan Estyn ym mis Mawrth 2011. Seiliwyd yr arolygiad hwn ar safonau perfformiad yn 2010. Fe wnaeth arolygwyr Estyn farnu fod gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- mae safonau'n dda yn gyffredinol;
- mae safonau lles ac ymgysylltiad pobl ifanc yn dda; ac
- mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd yn ddiweddar ynglŷn â chau ysgolion ac ailstrwythuro prosesau penderfynu a chraffu'r Cyngor.

Fodd bynnag:

- nid yw'r Cyngor yn ymgymryd â sicrhau ansawdd a gwerthuso'n ddigon da eto i fod o fudd i ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr;
- mae gormod o ysgolion mewn categori sy'n achosi pryder i Estyn, ac mae diffyg cyllidol uchel gan ormod o ysgolion;
- mae'r Cyngor wedi bod yn rhy araf yn defnyddio'i ystod llawn o bwerau i ymyrryd er mwyn gwella ysgolion a/neu eu timau arwain a'u cyrff llywodraethol;
- nid yw aelodau etholedig yn rhoi digon o bwyslais ar safonau, ac yn rhy aml maent yn rhoi pryderon lleol cyn buddiannau ehangach y dysgwyr; ac
- nid yw'r prosesau penderfynu a chraffu yn ddigon effeithiol.

64 Barnodd arolygwyr fod rhagolygon gwella digonol gan y Cyngor oherwydd:

- mae ymrwymiad cryf i weithio ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus ym Mhowys.

Fodd bynnag:

- mae hanes y Cyngor o sicrhau gwelliant mewn ysgolion wedi bod yn siomedig.

65 Mae'r Cyngor wedi ymateb i ganfyddiadau'r arolygiad trwy ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr, a bydd Estyn yn adolygu cynnydd y Cyngor wrth iddo weithredu'r cynllun hwnnw. O'n rhan ni, mae canfyddiadau arolygu Estyn ynglŷn â bod diffygion cyllidol uchel gan ormod o ysgolion, a bod prosesau craffu/ymyrryd y Cyngor heb fod yn ddigon effeithiol, yn gyson â chanfyddiadau o feysydd ein gwaith ein hunain. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r materion hyn.

## Er bod cyfraddau casglu ac ailgylchu gwastraff y Cyngor wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, mae rhai arwyddion calonogol y gall y Cyngor gyflawni cyfradd ailgylchu uwch a lleihau costau

66 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n creu ac yn cynnal yr ardal fel man diogel, ffyniannus a dymunol. Eleni, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar werthuso pa mor dda mae'r Cyngor yn perfformio ar gasglu ac ailgylchu ei wastraff trefol.

67 Mae rheoli ac ailgylchu gwastraff yn creu her i bob cyngor am fod targedau gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn mynd yn fwyfwy anodd, ac mae cosbau ariannol sylweddol ynghlwm â hwy.

68 Roedd gan y Cyngor gyfradd ailgylchu gwastraff dda hyd at 2007-08, ond mae hyn wedi dirywio ers hynny tra bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill wedi cyflawni cynnydd o rhwng 10 a 15 pwynt canran.

69 Yn 2007-08, cyflawnodd Powys gyfradd ailgylchu o 41.2 y cant. Roedd hwn yn berfformiad da, yn yr ail safle o blith 22 o gynghorau Cymru, ac ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan, sef 31.8 y cant. Erbyn 2010-11, roedd cyfradd ailgylchu'r Cyngor wedi gostwng i 36.6 y cant, ymhell islaw cyfartaledd Cymru gyfan, sef 43.6 y cant, ac yn yr ugeinfed safle. Fe wnaeth y Cyngor hefyd fethu'r targed ailgylchu o 40 y cant ar gyfer 2009-10 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gyflawni dim ond 38.8 y cant. Fe all maint a natur wledig Powys gyfrannau at fod gan y Cyngor gostau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer darparu rhai o'i brif wasanaethau gwastraff o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

70 Mae newid yn yr hinsawdd yn un o bedair blaenoriaeth wella'r Cyngor. Mae'r flaenoriaeth wella'n ymwneud yn benodol â rhai agweddau ar reoli ac ailgylchu gwastraff, yn enwedig casglu a thrin gwastraff, ac mae hefyd yn mynd i'r afael â lleihau ôl-troed carbon y Cyngor trwy reoli cyfleusterau a gwasanaethau a gweithrediadau fflydoedd yn well.

71 Mae cyflawniadau rheoli gwastraff allweddol yr adroddwyd amdanynt gan y Cyngor yn 2010-11 yn cynnwys cyflwyno casgliadau ailgylchu a chasgliadau sbwriel newydd yn raddol yn Ystradgynlais a Rhaeadr Gwy. Dywed y Cyngor fod cyflwyno'r gwell casgliadau ailgylchu wythnosol, gan gynnwys gwastraff bwyd, a chasgliadau ysbwriel bob pythefnos, wedi helpu trigolion a'r Cyngor i leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon yn ddiangen i safleoedd tirlenwi, yn cynyddu faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu ac yn lleihau costau'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn asesu fod ei wasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff newydd wedi hybu cyfradd ailgylchu'r dref ar garreg y drws o 17 i 40 y cant, ac, yn Ystradgynlais, mae wedi codi faint o ddeunydd ailgylchu sy'n cael ei gasglu o gyfartaledd wythnosol o 10.6 o dunelli metrig i 24.8 o dunelli metrig. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif ei fod wedi gwneud arbedion o dros £50,000 hyd yn hyn, yn sgil gwerthiannau deunydd ailgylchu a thrwy fod llai o sbwriel yn cael ei anfon i'w dirlenwi. Dangosodd arolwg diweddar o drigolion fod 82 y cant o'r farn fod y gwasanaeth newydd yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd i'w ddefnyddio, a theimlai 78 y cant fod maint y bin olwynion yn ddigonol iawn neu'n ddigonol.

72 Mae'r rhain yn arwyddion calonogol y gall y Cyngor, yn sgil cyflwyno'r dull newydd yn ehangach ar gyfer casglu gwastraffau a sbwriel y gellir eu hailgylchu, gyflawni cyfradd ailgylchu uwch a lleihau cost gwasanaethau gwastraff fesul cartref. Bydd trigolion yn rhannau o Sir Frycheiniog a Maesyfed yn dechrau gweld newidiadau tebyg dros y chwe mis nesaf.

73 Mae Cyngor Sir Powys yn gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion tuag at gyflawni'r capasiti trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol sy'n ofynnol i fodloni targedau gwastraff ar ôl 2014, ac i sicrhau rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

## Nid oes diwylliant yn y Cyngor sy'n hyrwyddo asesiad agored a chytbwys priodol o'i berfformiad, ac nid yw eto wedi gwerthuso'n effeithiol pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion gwella

74 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei berfformiad yn 2010-11 mewn dogfen 26 tudalen o'r enw *Cynllun Newid Powys Cam 2 (Asesiad Perfformiad Blynyddol 2010/11)*. Mae'r asesiad perfformiad hwn yn defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth nag mewn adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Nid yw'n dibynnu ar ddangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol yn unig, ond mae hefyd yn defnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith pwyllgorau craffu'r Cyngor a'r data arolwg a gasglwyd drwy ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

75 Cyfeiriwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn (paragraffau 21-23) at wendidau mewn perthynas â chynllun newid y Cyngor 2010-2014. Nid oedd y cynllun yn cyfleu'r lefel perfformiad y disgwyliai'r Cyngor ei chyflawni erbyn diwedd 2011, sy'n ei gwneud hi'n anodd llunio barn ystyrlon ynglŷn â lefelau perfformiad gwirioneddol, fel a ddisgrifir yn yr asesiad perfformiad.

76 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu fod y Cyngor wedi cyflawni pob un o'i ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, a'i fod yn cynllunio ac yn gweithredu trefniadau llywodraethu a chraffu priodol.

### Nid yw asesiad perfformiad y Cyngor ar gyfer 2010-11 yn rhoi golwg gytbwys o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud, am ei fod yn tueddu canolbwyntio ar gyflawniadau cadarnhaol yn unig

77 Nid yw hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn rhoi golwg gytbwys o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud, am ei fod yn dangos tuedd amlwg o ganolbwyntio ar y cyflawniadau cadarnhaol yn unig. Er enghraifft, mae'r crynodeb yn disgrifio sut yr aeth y Cyngor ati i ofyn i drigolion raddio'u bodlonrwydd â 30 o wasanaethau'r Cyngor, gan nodi bod 15 o wasanaethau'r Cyngor wedi cael sgorau bodlonrwydd uchel o dros 70 y cant. Fodd bynnag, nid yw'r crynodeb yn mynd ymlaen wedyn i nodi'r 15 o wasanaethau eraill y Cyngor na gyflawnodd y sgorau uchel hyn. Mae'r crynodeb hefyd yn ystyried meysydd lle dywed y Cyngor ei fod wedi perfformio'n dda o gymharu â chynghorau eraill (h.y. Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Addysgu). Ond nid yw'n nodi'r gwasanaethau hynny lle na wnaeth y Cyngor berfformio gystal o gymharu â chynghorau eraill.

78 Hefyd, mae nifer o feysydd y tu allan i'r crynodeb lle nad yw'r naratif a roddir yn yr asesiad perfformiad yn adlewyrchu'n llawn yr heriau y gwyddwn fod y Cyngor wedi'u hwynebu. Er enghraifft, wrth adrodd am welliant yn y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal, mae'r asesiad perfformiad yn priodoli llwyddiant i weithio agosach rhwng staff iechyd a staff gofal cymdeithasol, ac i gyflwyno cydlynwyr cynllunio rhyddhau, ond

nid yw'n cyfeirio at y £3 miliwn ychwanegol a wariwyd gan y Cyngor i sicrhau lleoedd gwely mewn cartrefi gofal. Wrth werthuso prosiect Llanfair-ym-Muallt, mae'r asesiad perfformiad yn cofnodi llwyddiant y Cyngor i sicrhau £4.9 miliwn ar gyfer adeiladu cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan gynnwys 12 o ystafelloedd *en suite* ychwanegol ar gyfer darparu gofal hyblyg mewn cartref nyrsio. Nid yw'n gwerthuso canlyniad diffyg cyllid digonol ar gyfer y cyfleuster 60 gwely a ragwelwyd yn wreiddiol fod ei angen gan y Cyngor.

79 Fel sydd yn digwydd mewn llawer o gynghorau yng Nghymru, mae gan Powys ddiwylliant sydd yn tueddu i baentio darlun or-gadarnhaol o sut mae'n darparu ei wasanaethau i'w ddinesyddion. Mae'r Mesur yn gofyn i gynghorau fod yn fwy hunan-feirniadol ac arfarnol o ran sut maen nhw'n darparu gwasanaethau. Mae cynghorau bellach angen canolbwyntio'n gliriach ar yr amcanion gwella sydd wedi eu nodi ac effaith gwasanaethau gwell ar ddinasyddion, gan sicrhau fod dinasyddion yn adnabod fod gwelliannau wedi eu cyflawni. Mae'r angen i newid diwylliant y Cyngor i un sydd yn fwy hunan-feirniadol ac arfarnol yn her i'r swyddogion a'r aelodau, a gall gymryd peth amser i gyflawni. Fodd bynnag, drwy'n gwaith â'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi nodi datblygiadau cadarnhaol sydd yn dynodi fod y Cyngor yn adnabod yr angen am newid ac yn cymryd camau addas er mwyn cyflawni hyn.

## Mae asesiad perfformiad y Cyngor yn dibynnu gormod ar ddata sy'n adrodd beth mae'r Cyngor yn ei wneud, ar draul data sy'n dangos y gwahaniaeth mae'r Cyngor yn ei wneud o ran deilliannau

80 Mae asesiad perfformiad 2010-11 y Cyngor yn dibynnu gormod ar ddata sy'n adrodd beth mae'r Cyngor yn ei wneud, ar draul data sy'n dangos y gwahaniaeth mae'r Cyngor yn ei wneud o ran deilliannau. Gwelir y duedd hon i ganolbwyntio ar weithredoedd y Cyngor yn hytrach nag effeithiau ar draws pob un o'i bedair blaenoriaeth wella. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn asesu'i berfformiad o dan ei amcan gwella *Dysgu yn y Gymuned* yn erbyn mesurau sy'n cynnwys pa un a yw wedi:

- sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer ysgolion cynradd newydd;
- cynnal adolygiadau o dan ei raglen moderneiddio ysgolion;
- llunio polisi cludiant ysgol;
- agor ysgol newydd;
- sefydlu Tîm Effeithiolrwydd Ysgolion newydd;
- agor llwybr beicio a cherdded newydd;
- sefydlu grwpiau rhedeg newydd;
- datblygu cynlluniau ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau'r Cyngor, fel cynllunio a gwasanaethau plant;
- cynnal adolygiad o gludiant ysgol; ac
- wedi lansio gwasanaeth bws newydd i bobl ifanc.

81 Fel enghraifft bellach, o dan ei amcan gwella *Adfywio,* mae'r Cyngor yn asesu'i berfformiad yn erbyn mesurau sy'n cynnwys pa un a yw wedi:

- sefydlu bwrdd adfywio;
- ffurfio tîm datblygu newydd;
- dechrau ysgrifennu *Cynllun Datblygu Lleol Powys;* ac
- wedi dechrau gwella canol tref y Drenewydd.

82 Nifer cyfyngedig iawn o enghreifftiau sydd lle mae'r Cyngor yn nodi effeithiau'r gweithgareddau mae wedi'u cyflawni. Er enghraifft, o dan ei amcan gwella Newid Hinsawdd, dywed y Cyngor fod newidiadau i'w gynlluniau ailgylchu wedi cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a bod hynny wedi arwain at arbedion o £50,000 trwy gostau tirlenwi is a gwerthu deunyddiau wedi'u hailgylchu.

83 Fe allai'r Cyngor wneud defnydd gwell hefyd o ganfyddiadau archwilio ac arolygu. Er bod yr asesiad perfformiad yn disgrifio'r gwaith archwilio ac arolygu a wnaed dros y flwyddyn flaenorol, nid yw'n defnyddio'r canfyddiadau hyn i asesu cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'i bedwar amcan gwella.

## Nid yw Cabinet y Cyngor a threfniadau craffu'r Cyngor yn ddigon effeithiol eto i hwyluso proses benderfynu wybodus a her gadarn i berfformiad gwasanaethau

84 Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir i aelodau i alluogi proses benderfynu gadarn a chynnig her i'r ffordd y mae gwasanaethau'n perfformio yn wael yn gyffredinol. Yn aml nid oes cyfleodd i drafod gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau critigol ar bwyntiau allweddol mewn amser. Er enghraifft, fe gafodd prosiect Llanfair-ym-Muallt, sef model ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys, a gafodd ei gostio'n wreiddiol fel cynllun 60 gwely £24 miliwn, ei resymoli yn brosiect £4.9 miliwn, yn darparu cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol integredig â 12 gwely.

85 Yn ystod y cyfnod datblygu allweddol, rhwng Chwefror 2010 a Medi 2010, ni aeth unrhyw wybodaeth at y Bwrdd, y Pwyllgor Craffu nac at Fwrdd ffurfiol y Prosiect. Dros y cyfnod Chwefror 2010 i Fedi 2010, pan gyflwynwyd yr achos amlinellol strategol diwygiedig i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo, ni wnaeth Bwrdd y Prosiect gyfarfod. Roedd hyn yn ystod y cyfnod pan oedd trafodaethau'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r penderfyniad i israddio'r cynllun.

86 Nodir o gofnodion Bwrdd y Prosiect nad oedd rhai aelodau'n teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn ddigonol dros y cyfnod hwn. Roedd y diffyg cynnwys hwn ar adeg pan oedd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud ynglŷn â dyfodol y prosiect a'r modd y gallai barhau i fodloni amcanion strategol a

gytunwyd ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys mewn perthynas â modelau darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol ym Mhowys.

87 Mae adroddiadau perfformiad chwarterol a gyflwynir i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn rhoi ffocws trafodaethau aelodau ar fesurau perfformiad unigol ar sail eithrio. Yn aml mae arwyddocâd amheus i'r cyfryw fesurau mewn perthynas â gwerthusiad ystyrlon o ba mor effeithlon mae'r Cyngor yn bodloni ei amcanion gwella. Mae'n hynod nad yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn nodi'r meysydd perfformiad gwael hynny y canfuom ni ac AGGCC yn ein hadolygiad o Wasanaethau Oedolion. Yn yr un modd, barnodd arolygwyr Estyn 'nid yw aelodau etholedig yn rhoi digon o bwyslais ar safonau' ac 'nid yw'r prosesau penderfynu a chraffu yn ddigon effeithiol'.

88 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen iddo ddatblygu fframwaith i gynorthwyo aelodau i ddeall pwysigrwydd sgiliau llywodraethu a chraffu da, yn enwedig yn sgil cyflwyno strwythur newydd y Cabinet. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gwybodaeth a gyflwynir i aelodau yn ddigon gwerthusol, yn berthnasol ac yn amserol. Rhaid gwneud hyn i hyrwyddo her gadarnach i berfformiad er mwyn helpu cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a chyflawni deilliannau gwell i ddinasyddion Powys.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Powys yn gwario oddeutu £233 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfwerth â rhyw £1,774 fesul preswylydd. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor wario £42 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn 2010-11 ar gyfer Powys oedd £889 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.99 y cant i £916 y flwyddyn ar gyfer 2011-12. Mae 58 y cant o'r anheddau ym Mhowys ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 31 o Gynghrair Annibynnol Powys
- 13 o Grŵp Annibynnol y Rhanbarthau
- 12 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 9 o Geidwadwyr Cymru
- 5 o Blaid Lafur Cymru
- 1 o Blaid Cymru
- 2 Amhleidiol

Prif Weithredwr Powys yw Jeremy Patterson.

- Cyfarwyddwr Strategol – Cymunedau, Sgiliau a Dysgu: Paul Griffiths
- Cyfarwyddwr Strategol – Gofal a Lles: Parry Davies
- Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid a Seilwaith: Geoff Petty
- Cyfarwyddwr Strategol – Y Gyfraith a Llywodraethu: Clarence Meredith

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Powys yw:

- Sir Drefaldwyn: Russell George, Ceidwadwr Cymreig
- Brycheiniog a Sir Faesyfed: Kirsty Williams, Democrat Rhyddfrydol Cymreig
- Aelodau Rhanbarthol y Canolbarth: Rebecca Evans a Joyce Watson, Y Blaid Lafur; Simon Thomas, Plaid Cymru; a William Powell, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer Powys yw:

- Sir Drefaldwyn: Glyn Davies, Ceidwadwr
- Brycheiniog a Sir Faesyfed: Roger Williams, Democrat Rhyddfrydol

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.powys.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG.

# Atodiad 3
# Cyfrifon Cyngor Sir Powys a'i ddefnydd o adnoddau

Ar 29 Tachwedd 2011 cyhoeddwyd y llythyr archwilydd canlynol gan yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Y Cynghorydd Michael Jones
Arweinydd
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys LD1 5LG

Annwyl Gynghorydd Jones

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Powys**

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol fel Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Cynllun Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Powys â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiad ariannol a defnyddio adnoddau**

1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

2 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

3 Ar 29 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Cynhwysir f'adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y prif faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Medi 2011, a bydd adroddiad manylach yn dilyn maes o law.

4 O 2010-11 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor, ond er gwaetha'r pwysau ychwanegol, paratowyd y cyfrifol erbyn y terfyn amser statudol. Fe wnaeth y pwysau a'r gofynion ychwanegol hyn olygu, fodd bynnag, na fu modd cynnal yr holl wiriadau rheoli ansawdd arferol, ac o ganlyniad, nid oedd y datganiadau drafft a'r papurau gweithio ategol bob amser i'r un safon â blynyddoedd blaenorol (gweler paragraff 8 isod am wybodaeth am ffi ychwanegol). Rwy'n cydnabod fod tîm cyllid y Cyngor wedi ymdrin â chyflwyno'r IFRS heb adnoddau ychwanegol.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. At ei gilydd, rwy'n fodlon fod gennych drefniadau priodol ar waith, er y bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle gellid gwneud gwelliannau.

6 Ym mis Mawrth 2011 cyflwynais adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar ddatgeliadau a wnaed i ni o dan drefniadau chwythu'r chwiban. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd y pryderon a godwyd gan y chwythwyr chwiban, at ei gilydd, naill ai heb eu cadarnhau neu roeddent eisoes wedi'u cydnabod gan y Cyngor. Fodd bynnag, roedd methiannau difrifol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r grŵp Gwastraff Anelu'n Uchel, ac ym mhenodiad un cyflogai a nodwyd gan y chwythwr chwiban. Mae'r Cyngor wedi llunio a chytuno cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

7 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2011.

8 Disgwylir ar hyn o bryd i ffi'r archwiliad ariannol ar gyfer 2010-11 fod £5,719 yn uwch nag a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol. Roedd yn ofynnol gwneud gwaith ychwanegol ar falansau'r Asedau Sefydlog a'r ffigurau Cyllid Cyfalaf, ac yn gyffredinol, nid oedd ansawdd y papurau gweithio a gyflwynwyd i gefnogi'r Datganiadau Ariannol a'r llwybr archwilio mor gadarn ag mewn blynyddoedd blaenorol.

John Herniman

Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2011

Mae gan etholwyr lleol a phobl eraill hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol, o gwmpas mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl trefnu eu bod ar gael. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon am y flwyddyn mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, gallwch yn syml iawn ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth yn anghywir â'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau,* ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennnu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Powys

## Amcanion gwella Cyngor Sir Powys

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo gweledigaeth newydd y cyngor 'Gwasanaethau Effeithlon ar gyfer Calon Werdd Cymru' ym mis Chwefror 2010, i'w chyflawni trwy fodel newid strategol. *Cafodd Cynllun Gwella Corfforaethol Powys 2010-2014,* a elwir hefyd yn *Gynllun Newid Powys,* ei ddatblygu o amgylch pedair blaenoriaeth ar gyfer gwella (yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau) a chwech o flaenoriaethau effeithlonrwydd (yn ymwneud â chyflawni arbedion ariannol a datblygu capasiti'r sefydliad). Yn 2011, aeth y Cyngor ati i fireinio'i gynlluniau drwy adolygu a blaenoriaethu'r prosiectau gan gefnogi pob un o'i amcanion gwella. Yn unol â hynny, ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd y Cyngor bum amcan gwella yn ei *Gynllun Newid Powys 2011-2014,* a gellir gweld y rhain ar wefan y Cyngor yn www.powys.gov.uk/index.php?id=296&L=1.

Maent fel a ganlyn:

| **Cynllun Newid Powys 2010-2014 blaenoriaethau gwella** | |
|---|---|
| Byw fel Oedolion | Helpu poblogaeth yr henoed i aros yn eu cartrefi, ond hefyd gwella cyflwr tai ac atal digartrefedd. |
| Dysgu yn y Gymuned | Bodloni heriau niferoedd gostyngol mewn ysgolion, trwy ddatblygu cyfleusterau amlswyddogaeth, sy'n cynnig cyfleoedd dysgu a hamdden i'r gymuned gyfan. |

| **Cynllun Newid Powys 2011-2014 amcanion gwella** | |
|---|---|
| Gofal a Lles | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau di-dor, o ansawdd uchel drwy gyfrwng gwell modelau gofal a fydd yn adeiladu ar annibyniaeth a dycnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac sy'n fwy effeithlon a chynaliadwy. |
| Dysgu a'r Gymuned | Byddwn yn lleihau costau drwy reoli asedau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol amryfal. Byddwn yn ad-drefnu'r darpariaethau ysgolion er mwyn cydweddu'r lleoedd â'r myfyrwyr a sicrhau bod ysgolion yn ariannol hyfyw ac yn addas i'r diben. |

| Cynllun Newid Powys 2010-2014 blaenoriaethau gwella | |
|---|---|
| Adfywio | Cwblhau strategaeth adfywio Powys am ei bod yn allweddol i greu cymunedau ffyniannus. |
| Newid Hinsawdd | Lleihau ôl-troed carbon y Cyngor, cynorthwyo eraill i leihau eu hallyriadau carbon eu hunan a gwneud Powys yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd, yn enwedig tywydd eithafol. |

| Cynllun Newid Powys 2011-2014 amcanion gwella | |
|---|---|
| Adfywio | Byddwn yn gwella lles economaidd dinasyddion Powys drwy ddefnyddio adnoddau a dylanwad y Cyngor i ysgogi gweithgarwch adfywio. |
| Newid Hinsawdd | Byddwn yn helpu diogelu a gwella'r amgylchedd drwy gynyddu cyfraddau ailgylchu; lleihau'r nwyon sy'n peri niwed i'n hamgylchedd a sicrhau bod y cyhoedd ym Mhowys yn ddiogel rhag effeithiau mwyaf eithafol y newid yn yr hinsawdd e.e. mwy o risg o lifogydd. |
| Y Cyngor | Byddwn yn gweithio fel un cyngor, gan herio'n gyson yr hyn a gyflenwir a'r modd y caiff ei gyflenwi er mwyn gwella ansawdd a lleihau'r gost. Gwnawn hyn drwy drawsnewid ffyrdd ein gweithlu o weithredu, sut caiff ei dalu a'i ddatblygu. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r gymuned a'n gweithlu. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill. Byddwn yn defnyddio technoleg fodern i wella cynhyrchiant. Byddwn yn gwella ein ffyrdd o gaffael nwyddau a gwasanaethau. |

| Cynllun Newid Powys 2010-2014 blaenoriaethau effeithlonrwydd | |
|---|---|
| Prosesau | Rhyddhau arbedion effeithlonrwydd trwy brosesau mwy hwylus, llai biwrocrataidd, sy'n rhoi mwy o bŵer i staff llinell flaen. |
| TGCh | Defnyddio TGCh i gynorthwyo ag ailgynllunio a chyflwyno prosesau cymorth yn erbyn amcanion gwella. |
| Gweithlu | Sicrhau bod staff y Cyngor yn cael eu talu'n deg a'u bod yn meddu ar y sgiliau priodol. |
| Gwasanaethau Cymorth | Cyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cymorth, trwy weithio gyda phartneriaid, fel y gwasanaeth iechyd a chynghorau eraill. |
| Asedau | Rhesymoli portffolio eiddo'r Cyngor trwy ddatblygu rhannu'r defnydd o adeiladau, a lleihau fflydoedd trwy rannu'r defnydd o gerbydau. |
| Rheoleiddio | Ailgynllunio gwasanaethau er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. |

## Hunanasesiad Cyngor Sir Powys o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ei Gynllun Newid Powys Cam 2 (Asesiad Perfformiad Blynyddol 2010/11) sydd ar gael gan y Cyngor ac ar ei wefan yn: www.powys.gov.uk/index.php?id=296&L=1.

# Atodiad 5
# Crynodeb yr AGGCC o'i Hadolygiad a'i Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad Cyngor Sir Powys 2010-11

Mae perfformiad yr awdurdod mewn perthynas â mynediad i wasanaethau plant, asesu ar eu cyfer a rheolaeth gofal ohonynt yn parhau i wella, ac erbyn hyn mae'n agos iawn at fodloni targedau statudol. Mae angen i'r awdurdod sicrhau bod ei brosesau sicrhau ansawdd yn gadarn er mwyn iddynt allu bod yn siwr fod y gwasanaethau mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu derbyn o ansawdd ddigon da. Mae tystiolaeth fod strategaethau gwasanaethau a chynlluniau comisiynu'n cael eu rhoi ar waith, a bod hyn yn arwain at ddatblygiadau yn yr ystod gwasanaethau sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yn yr awdurdod, yn ychwanegol at y rheiny sy'n gymwys i gael cymorth gwasanaethau cymdeithasol. Dros amser, bydd yr awdurdod yn dymuno gallu dangos tystiolaeth fod y gwasanaethau sydd ar waith yn arwain at y deilliannau dymunol. Mae angen i'r awdurdod sicrhau hefyd fod ei waith gyda phartneriaid yn gwella deilliannau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Yn ystod 2010-11 nid oes llawer o gynnydd amlwg wedi'i wneud wrth gyflawni gwelliant ac wrth fynd ati i wneud gwaith moderneiddio angenrheidiol i wasanaethau cymdeithasol oedolion. Nid yw'r awdurdod wedi dangos ei fod fymryn yn agosach at weithredu strategaethau comisiynu a chaffael sydd eu hangen er mwyn ehangu mynediad i wasanaethau ac i ddatblygu ystod ehangach o wasanaethau o safon. Nid yw'r awdurdod wedi cyflwyno tystiolaeth ei fod wedi rhoi blaenoriaeth i'r materion a'r problemau a nodwyd o fewn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl, y tynnodd sawl corff annibynnol sylw atynt. Ychydig o'r argymhellion a wnaed gan yr AGGCC yn adroddiad gwerthuso'r llynedd sydd wedi cael sylw, a'r gwerthusiad cyffredinol o wasanaethau oedolion o hyd yw bod angen gwella'r rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaeth yn gyflym ac yn sylweddol. Penderfynodd yr awdurdod symud i ffwrdd oddi wrth y cynllun i uno'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol â Bwrdd Addysgu Iechyd Powys. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae cynnydd wedi'i gyfyngu i ail-drafod blaenoriaethau ac ailddechrau cynllunio, er bod hynny wedi digwydd mewn fframwaith rheoli prosiect cliriach. Mae'r angen am newid gwirioneddol a chynaledig yn parhau'n angen critigol.

Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol at faterion y gweithlu yn y blynyddoedd diweddar, gan ddangos cryfderau o ran cymorth i staff, cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Fodd bynnag, mae swyddi gweigion parhaus yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol, ac mae angen i'r awdurdod leihau'r rhain gymaint â phosibl a llenwi swyddi'n barhaol. Mae'r awdurdod wedi buddsoddi'n effeithiol mewn systemau rheoli achosion a systemau gwybodaeth sy'n cefnogi rheoli perfformiad. Maent hefyd yn cefnogi gwaith yr awdurdod yn cynllunio gwasanaethau, cynllunio corfforaethol ac adrodd i aelodau. Mae defnydd o'r wybodaeth hon a'r data hwn ar gyfer cynllunio busnes ar lefel tîm a lefel gwasanaeth wrthi'n cael ei ddatblygu.

Mae'r awdurdod yn parhau i wario'n gymharol uchel ar rai grwpiau gwasanaethau cymdeithasol (plant a phobl hŷn). Yn sgil yr hinsawdd ariannol heriol, fodd bynnag, mae wedi bod yn angenrheidiol i wasanaethau cymdeithasol gyfrannu at arbedion effeithlonrwydd. Er y bu'r awdurdod yn barod i drefnu bod adnoddau ychwanegol ar gael, pe bai angen, i gefnogi lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal ac i foderneiddio gwasanaethau oedolion, ni fu hyn yn angenrheidiol. Fe wnaeth yr adran gwasanaethau cymdeithasol danwario ar ei chyllideb 2010-11 yn bennaf yn sgil bylchau mewn gwasanaethau llinell flaen, ac nid yw honno'n sefyllfa y gellir ei chynnal.

Mae cyferbyniad nodedig yn y cynllunio strategol, gweithio mewn partneriaeth a chomisiynu ar y cyd rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Mae tystiolaeth yn y gwasanaethau i blant fod y strategaeth i gomisiynu gwasanaethau mewn ffordd sy'n integreiddio anghenion plant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael cymorth gwasanaethau cymdeithasol, wedi parhau i weithio'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bu 2010-11 yn flwyddyn o newid o ran goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth wleidyddol yn yr awdurdod. Aeth y Cyngor ati i ymgynghori, ac yna symud tuag at fodel Cabinet o lywodraethu, ond ni fwriwyd ymlaen â'r cynllun i uno'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol â Bwrdd Addysgu Iechyd Powys o dan un uwch rheolwr. Yn rhan olaf y flwyddyn, canolbwyntiodd yr awdurdod ei ymdrechion ar drafod trefniant rheoli ar y cyd, ar lefel Cyfarwyddwr, gydag awdurdod cyfagos, ac o 1 Ebrill 2011 rhoddodd benderfyniad ar waith i rannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel prosiect peilot. Bydd y trefniadau interim ar lefel Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion wedi cyfyngu ar allu'r awdurdod i ddatblygu perfformiad gwasanaethau oedolion a'r agenda pwysig i foderneiddio gwasanaethau oedolion. Mae'r trefniadau rheoli uwch a gweithredol mewn gwasanaethau plant wedi aros yn sefydlog, ac mae tystiolaeth o gynnydd strategol a gweithredol parhaus.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk